

## ***BRO DWYNWEN 29/06/2025***

### ***Pedr, Apostol – Peter, Apostle***

#### **Colect 217**

Hollalluog Dduw a ysbrydolaist dy apostol Pedr i gyffesu Iesu yn Feseia ac yn Fab y Duw byw; adeilada dy Eglwys ar y graig hon, fel y gall, mewn undod a heddwch, gyhoeddi un gwirionedd a dilyn un Arglwydd, dy Fab ein Gwaredwr Crist sy'n fyw, ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth.

#### **Collect 217**

Almighty God, who inspired your apostle Saint Peter to confess Jesus as Christ and Son of the living God: build up your Church upon this rock, that in unity and peace it may proclaim one truth and follow one Lord, your Son our Saviour Christ, who is alive and reigns with you and the Holy Spirit, one God, now and for ever.

#### **Eseciel 3. 22-27**

Daeth llaw yr ARGLWYDD arnaf yno, a dywedodd wrthyf, "Cod a dos i'r gwastadedd, ac fe lefaraf wrthyf yno." Codais a mynd i'r gwastadedd, ac yr oedd gogoniant yr ARGLWYDD yn sefyll yno, yn union fel y gogoniant a welais wrth afon Chebar, a syrthiais ar fy wyneb. Yna daeth yr ysbryd arnaf a'm codi ar fy nhraed, a llefarodd wrthyf gan ddweud, "Dos a chau arnat dy hun yn dy dŷ. Fe roddir rhwymau amdanat ti, fab dyn, a'th glymu â hwy fel na elli fynd allan ymysg dy bobl. Gwnaf i'th dafod lynu wrth daflod dy enau, a byddi'n fud, fel na elli eu ceryddu, oherwydd tylwyth gwrthryfelgar ydynt. Ond pan lefaraf fi wrthyf, fe agoraf dy enau, ac fe ddywedi wrthynt, 'Fel hyn y dywed yr Arglwydd DDUW.' Bydded i'r sawl sy'n gwrando arnat wrando, ac i'r sawl sy'n gwrthod wrthod; oherwydd tylwyth gwrthryfelgar ydynt.

#### **Ezekiel 3. 22-27**

Then the hand of the LORD was upon me there; and he said to me, Rise up, go out into the valley, and there I will speak with you. So I rose up and went out into the valley; and the glory of the LORD stood there, like the glory that I had seen by the river Chebar; and I fell on my face. The spirit entered into me, and set me on my feet; and he spoke with me and said to me: Go, shut yourself inside your house. As for you, mortal, cords shall be placed on you, and you shall be bound with them, so that you cannot go out among the people; and I

will make your tongue cling to the roof of your mouth, so that you shall be speechless and unable to reprove them; for they are a rebellious house. But when I speak with you, I will open your mouth, and you shall say to them, 'Thus says the Lord GOD'; let those who will hear, hear; and let those who refuse to hear, refuse; for they are a rebellious house.

#### **Salm 125**

Y mae'r rhai sy'n ymddiried yn yr ARGLWYDD fel Mynydd Seion, na ellir ei symud, ond sy'n aros hyd byth. Fel y mae'r mynyddoedd o amgylch Jerwsalem, felly y mae'r ARGLWYDD o amgylch ei bobl yn awr a hyd byth. Ni chaiff teyrnwialen y drygionus orffwys ar y tir sy'n rhan i'r rhai cyfiawn, rhag i'r cyfiawn estyn eu llaw at anghyfiawnder. Gwna ddaioni, O ARGLWYDD, i'r rhai da ac i'r rhai uniawn o galon. Ond am y rhai sy'n gwyro i'w ffyrdd troellog, bydded i'r ARGLWYDD eu dinistrio gyda'r gwneuthurwyr drygioni. Bydded heddwch ar Israel!

#### **Psalm 125**

Those who trust in the LORD are like Mount Zion, which cannot be moved, but abides for ever. As the mountains surround Jerusalem, so the LORD surrounds his people, from this time on and for evermore. For the sceptre of wickedness shall not rest on the land allotted to the righteous, so that the righteous may not stretch out their hands to do wrong.

Do good, O LORD, to those who are good, and to those who are upright in their hearts. But those who turn aside to their own crooked ways the LORD will lead away with evildoers. Peace be upon Israel!

#### **Actau 12. 1-11**

Tua'r amser hwnnw, fe gymerodd y Brenin Herod afael ar rai o'r eglwys i'w drygu. Fe laddodd Iago, brawd Ioan, â'r cleddyf. Pan welodd fod hyn yn gymeradwy gan yr Iddewon, aeth ymlaen i ddal Pedr hefyd. Yn ystod dyddiau gŵyl y Bara Croyw y bu hyn. Wedi dal Pedr, fe'i rhoddodd yng ngharchar, a'i draddodi i bedwar pedwariad o filwyr i'w warchod, gan fwriadu dod ag ef allan gerbron y cyhoedd ar ôl y Pasg. Felly yr oedd Pedr dan warchodaeth yn y carchar. Ond yr oedd yr eglwys yn gweddio'n daer ar Dduw ar ei ran. Pan oedd Herod ar fin ei ddwyn gerbron, y nos honno yr oedd Pedr yn cysgu rhwng dau filwr, wedi ei rwymo â dwy gadwyn, a gwylwyr o flaen y drws yn gwarchod y carchar. A dyma angel yr Arglwydd yn sefyll yno, a goleuni yn disgleirio yn y gell. Trawodd yr angel Pedr ar ei ystlys, a'i ddeffro a dweud, "Cod ar unwaith."

29.06.2025

A syrthiodd ei gadwynau oddi ar ei ddwylo. Meddai'r angel wrtho, "Rho dy wregys a gwisg dy sandalau." Ac felly y gwnaeth. Meddai wrtho wedyn, "Rho dy fantell amdanat, a chanlyn fi." Ac fe'i canlynodd oddi yno. Ni wyddai fod yr hyn oedd yn cael ei gyflawni drwy'r angel yn digwydd mewn gwirionedd, ond yr oedd yn tybio mai gweld gweledigaeth yr oedd. Aethant heibio i'r wyliaidwriaeth gyntaf a'r ail, a daethant at y porth haearn oedd yn arwain i'r ddinas; agorodd hwn iddynt ohono'i hun, ac aethant allan a mynd rhagddynt hyd un heol. Yna'n ebrwydd ymadawodd yr angel ag ef. Wedi i Pedr ddod ato'i hun, fe ddywedodd, "Yn awr mi wn yn wir i'r Arglwydd anfon ei angel a'm gwared i o law Herod a rhag popeth yr oedd yr Iddewon yn ei ddisgwyl."

#### **Acts 12. 1-11**

About that time King Herod laid violent hands upon some who belonged to the church. He had James, the brother of John, killed with the sword. After he saw that it pleased the Jews, he proceeded to arrest Peter also. (This was during the festival of Unleavened Bread.) When he had seized him, he put him in prison and handed him over to four squads of soldiers to guard him, intending to bring him out to the people after the Passover. While Peter was kept in prison, the church prayed fervently to God for him.

The very night before Herod was going to bring him out, Peter, bound with two chains, was sleeping between two soldiers, while guards in front of the door were keeping watch over the prison. Suddenly an angel of the Lord appeared and a light shone in the cell. He tapped Peter on the side and woke him, saying, 'Get up quickly.' And the chains fell off his wrists. The angel said to him, 'Fasten your belt and put on your sandals.' He did so. Then he said to him, 'Wrap your cloak around you and follow me.' Peter went out and followed him; he did not realize that what was happening with the angel's help was real; he thought he was seeing a vision. After they had passed the first and the second guard, they came before the iron gate leading into the city. It opened for them of its own accord, and they went outside and walked along a lane, when suddenly the angel left him. Then Peter came to himself and said, 'Now I am sure that the Lord has sent his angel and rescued me from the hands of Herod and from all that the Jewish people were expecting.'

#### **Mathew 16. 13-19**

Daeth Iesu i barthau Cesarea Philipi, a holodd ei ddisgyblion: "Pwy y mae pobl yn dweud yw Mab y Dyn?" Dywedasant hwythau, "Mae rhai'n dweud Ioan Fedyddiwr, ac eraill Elias, ac eraill drachefn, Jeremeia neu un o'r proffwydi."

"A chwithau," meddai wrthynt, "pwy meddwch chwi ydwyf fi?" Atebodd Simon Pedr, "Ti yw'r Meseia, Mab y Duw byw." Dywedodd Iesu wrtho, "Gwyn dy fyd, Simon fab Jona, oherwydd nid cig a gwaed a ddatguddiodd hyn iti ond fy Nhad, sydd yn y nefoedd. Ac 'rwyf fi'n dweud wrthynt mai ti yw Pedr, ac ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys, ac ni chaiff holl bwerau Hades y trechaf arni. Rhoddaf iti allweddau teyrnas nefoedd, a beth bynnag a waherddi ar y ddaear a waherddir yn y nefoedd, a beth bynnag a ganiatei ar y ddaear a ganiateir yn y nefoedd."

#### **Matthew 16. 13-19**

Now when Jesus came into the district of Caesarea Philippi, he asked his disciples, 'Who do people say that the Son of Man is?' And they said, 'Some say John the Baptist, but others Elijah, and still others Jeremiah or one of the prophets.' He said to them, 'But who do you say that I am?' Simon Peter answered, 'You are the Messiah, the Son of the living God.' And Jesus answered him, 'Blessed are you, Simon son of Jonah! For flesh and blood has not revealed this to you, but my Father in heaven. And I tell you, you are Peter, and on this rock I will build my church, and the gates of Hades will not prevail against it. I will give you the keys of the kingdom of heaven, and whatever you bind on earth will be bound in heaven, and whatever you loose on earth will be loosed in heaven.'

#### **Ôl Gymun 110**

Arglwydd Dduw, ffynhonnell gwirionedd a chariad,  
cadw ni'n ffyddlon i ddysgeidiaeth  
a chymdeithas yr apostolion,  
wedi ein huno mewn gweddi a thorri bara,  
ac yn un mewn llawenydd a symlrwydd calon,  
yn Iesu Grist ein Harglwydd.

#### **Post Communion Prayer 110**

Lord God, the source of truth and love,  
keep us faithful to the apostles' teaching and fellowship,  
united in prayer and the breaking of bread,  
and one in joy and simplicity of heart,  
in Jesus Christ our Lord.